# Canlyniadau Ymgynghoriad Ysgolion 21 Ganrif Canlyniad

# Dwygyfylchi

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cod Post: 87% o bobl yn dod o LL34

## A ydych yn credu y gellid gwneud eich adeilad ysgol yn well?

93% Ydw

92% Ydw



## Beth hoffech ei weld?

| | |
|---|---|
| Adeilad newydd | 52 |
| Ail wneud / estyniad | 13 |
| Ail wneud llawn | 7 |
| Arall | 1 |

| | |
|---|---|
| Atgyweiriadau a gwelliannau | 41 |
| Ysgol newydd | 27 |
| Ail wneud / estyniad | 21 |
| Arall | 3 |

## Pa wasanaethau ‘ychwanegol’ sy’n bwysig i chi mewn ysgol?

| | |
|---|---|
| Chwaraeon/adnoddau hamdden | 57 |
| Adnoddau dysgu awyr agored | 57 |
| Parcio / mannau disgyn | 54 |
| Clwb brecwast | 53 |
| Cyn ysgol/Cylch | 44 |
| Clwb ar ôl ysgol | 42 |
| Darpariaeth ADY | 40 |
| Defnydd cymunedol | 34 |
| Cyswllt cludiant cyhoeddus | 23 |
| Arall | 2 |

| | |
|---|---|
| Chwaraeon/adnoddau hamdden | 54 |
| Clwb brecwast | 49 |
| Clwb ar ôl ysgol | 48 |
| Cyswllt cludiant cyhoeddus | 46 |
| Adnoddau dysgu awyr agored | 45 |
| Cyn ysgol/Cylch | 39 |
| Defnydd cymunedol | 21 |
| Arall | 1 |

## Pwy gymerodd ran?

| | |
|---|---|
| Disgyblion Dwygyfylchi | 73 |
| Rhieni/gwarcheidwaid | 42 |
| Disgybl | 7 |
| Staff | 16 |
| Llywodraethwr | 5 |
| Cyhoedd | 16 |
| Cynghorydd | 1 |
| Arall | 2 |

## Sylwadau o Ymgynghoriad Dwygyfylchi

Galw mawr yng Ysgol Capelulo, hefyd dim llawer o le i barcio ar gael.

Mae'r ysgol yn hen gyda choncrit dros y mannau chwarae a'r rhan fwyaf ohono, gan gynnwys y cae ar lethr. Byddai adeilad newydd gydag adnoddau tebyg i'r ysgol newydd yng Nghyffordd o fudd mawr i blant ac athrawon.

Nid yw'r ysgol yn addas i ddisgyblion/rhieni gydag anabledd oherwydd y grisiau a'i bod ar dair lefel.

Nid oes lle i rieni sefyll a disgwyl am eu plant, heb law ar y buarth neu'r tu allan i'r gatiau, a all fod yn beryglus gan fod giatiau'r ysgol yn arwain yn syth i'r ffordd ger tro cas. Nid oes gan yr ysgol ddigon o gamau diogelu i gael mynediad i'r ysgol – h.y. nid oes man dal ger y drws ffrynt gan fod y drws yn agor i'r brif fynedfa, gan roi mynediad i ymwthiwr posibl.

Nid oes digon o le i storio yn yr ysgol ac mae hyn yn arwain at lanast peryglus yn y coridorau a'r mannau eraill sydd ar gael. Oherwydd y nifer cynyddol o ddisgyblion, mae dosbarthiadau'n rhy fach ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion. Mae hyn yn arwain at ofod cymunedol anaddas i'r pwrpas, gyda'r neuadd yn gyfyng ar gyfer dal yr holl ddisgyblion ar yr un pryd.

Nid oes gofod dysgu ychwanegol ar gyfer defnydd grwpiau penodol o ddisgyblion neu staff. Mae hyn yn golygu bod disgyblion gydag ADY yn cyfarfod staff asiantaeth yn ystafell yr athrawon weithiau. Rhaid i staff ddefnyddio ystafell yr athrawon (ble mae'r llungopïwr / argraffwr yn cael ei gadw) fel man CPA a chynllunio.

Mae'r cae ar lechwedd ac yn llawn cwningod ac mae'r ysgol wedi bod yn ceisio trin y sefyllfa.

Mae'r ysgol wedi bod ar fynd ers 100 mlynedd. Ni fu problem gyda hi hyd nawr. Fel y dywedir 'if it ain't broke, don't fix it'.

Yn ystod y chwe blynedd diwethaf tra rwyf wedi bod yn llywodraethwr mae'r ysgol wedi tyfu o 93 disgybl i 157 a'r arwyddion yw y byddwn yn cael llawer o apeliadau ym Medi. Byddai ceisio ail wneud/codi estyniad megis rhoi clwt ar goes sydd wedi torri.

Mae'r ysgol bresennol ar sawl lefel heb fynediad cadair olwyn i'r holl ysgol. Nid oes gofod. Mae diffyg lle i storio yn yr ysgol bresennol a gyda nifer cynyddol o ddisgyblion, mae'r dosbarthiadau'n orlawn. Nid oes adnoddau chwaraeon digonol fel cae pêl-droed / hoci / athletau (mae'r cae presennol ar lechwedd) a gyda newidiadau cwricwlwm y Llywodraeth Cymru, nid oes ystafell cyfrifiaduron penodol, neu ofod ar gyfer lle creadigol i ddisgyblion. Mae nifer y disgyblion yn fwy na'r hyn all neuadd bresennol yr ysgol ei ddal, gan wneud addysg gorfforol yn broblem, yn arbennig ar gyfer disgyblion iau hŷn a chyngherddau a sioeau ysgol gan ei gwneud yn anodd i'r holl rieni fod yn bresennol.

Mae Ysgol Capelulo yn hen, mae gwaith cynnal mawr, mae'r llawr isaf ar sawl lefel, sy'n golygu llawer o risiau (gan gynyddu damweiniau fel maglu, llithro a disgyn). Fe'i bwriadwyd ar gyfer 100 o ddisgyblion ond mae llawer mwy na hynny'n mynychu. Mae diogelwch yn wael, felly mae staff a phlant mewn perygl.

Teimlo bod yr ysgol yn bresennol yn hen ffasiwn iawn ac yn methu dygymod â'r boblogaeth gynyddol, mae mynediad i'r ysgol yn serth iawn a pharcio yn effeithio ar bobl leol – ond ni hoffwn i addysg plant ddioddef.

Neu adeilad newydd gydag gyda phethau fel: Mae dosbarthiadau bach yn bwysig. Gwell addysg awyr agored. Mwy o gyfleoedd i rieni ddod i'r ysgol fel rhan o addysg fel mewn ysgolion eraill. Mwy o glybiau ar ôl ysgol yn ogystal ag iau.

Byddai adeilad newydd yn well gan fy mod yn credu na fyddai'n gost effeithiol i ail wneud ysgol mor hen gyda phroblemau posibl e.e. asbestos.

Angen gwelliant arwyddocaol i'r fan codi / disgyn. Y buarth yn agored i'r cyhoedd i'w weld. Pob grŵp oed wedi'i addysgu ar wahân – nid gyda'i gilydd.

Gwneud dosbarthiadau'n fwy fel nad oes angen rhannu blynyddoedd. Mwy o fannau cymunedol ar gyfer dysgu. Moderneiddio'r ysgol fel bod ganddi'r adnoddau diweddaraf.

# Sylwadau Llawn Ymgynghoriad Disgyblion

## Sylwadau ar neuadd chwaraeon, caeau neu fannau chwarae / dysgu awyr agored

- Buarth  - ar gyfer gwaith Mrs Corcron.
- Buarth, offer a champfa dryswig tu allan newydd
- A gawn ni gae astro, pwll nofio, arena chwaraeon, stiwdio dawns, buarth newydd, gwifren wib
- Buarth gwastad, cae pêl-droed
- Llunio cae pêl-droed
- Buarth, offer newydd a champfa dryswig tu allan
- Gall y babanod gael top y cae chwarae. Gall y babanod gael swings a sleid a phwll tywod. Gall iau gael cae pêl-droed ar y cae, mwy o feinciau a thu mewn i'r ysgol.
- Rwyf hefyd yn meddwl bod ar y buarth angen offer newydd, dylai fod yna ffyntiau dŵr o amgylch yr ysgol a dylent fod â dosbarthwyr rhew ynddynt
- Swing a lle o'i gwmpas fel nad yw pobl yn cael anaf
- Mwy o deganau buarth i'r iau a'r babanod. Stiwdio dawns.
- Cael cae pêl-droed, gymnasteg
- Cae pêl-droed, sleid, parc dŵr Park, pwll pêl, pwll nofio
- Sleidiau a Swings,
- Sleid neis, swing a siopau ffug,
- Pwll tywod, lle chwarae iau a lle chwarae i'r babanod
- Llong morladron i chwarae arni, ystafell addysg gorfforol.
- Gwneud y clawdd glaswellt yn wastad a llenwi'r tyllau cwningod. Ychwanegu mwy o offer chwarae fel swings, sleidau a chylchdro
- Hoffwn gael pwll nofio yn yr ysgol oherwydd mae llawer o bobl yn hoffi nofio. Byddwn wrth fy modd yn cael buarth newydd oherwydd nad oes gennym lawer o weithgareddau ac mae gan antur lawer o fwd nesaf ato! Byddem wrth ein bodd cael rhywle i wneud gymnasteg oherwydd byddai pobl wrth eu bodd efo hynny
- Rwy'n meddwl bod angen i ni wella buarth ein hysgol
- Sleidiau a Swings, mwy o offer amser aur, ffwnten dŵr
- Cae ysgol da a gwastad (nid ar lechwedd)
- Mwy o weithgareddau awyr agored,
- Mae ar ein hysgol angen mwy ar y buarth a chae/cae pêl-droed newydd
- Gallem helpu i lanhau'r tyllau yn ein buarth. Mae arnom angen offer buarth newydd a llunio gwell amgylchedd i blant. Torri'r dosbarthiadau
- Mae angen gwella buarth a  chae chwarae'r ysgol oherwydd mae'r buarth yn rhy fychan ac nid yw'n hwyl. Mae'n mynd yn wir ddiflas. Nid yw'r cae byth yn cael ei ddefnyddio ac mae o faint ardderchog! Mae tyllau cwningod ynddo ac mae llechwedd mawr, ac nid yw hynny'n dda! Nid yw'r cae ond yn cael ei ddefnyddio unwaith y flwyddyn ar gyfer y diwrnod chwaraeon! Nid ydym yn cael mynd ar y cae yn ystod egwyl.
- Rwy'n meddwl y dylem gael lleoedd chwarae mwy
- Adeiladu'r cae i fyny a rhoi rhyw fath o Astroturf arno
- Gallem gael mwy o gemau a mwy o rwystrau a phethau ar y buarth
- Post pêl-droed
- Sleid ar y buarth
- Rwy'n meddwl y dylem gael nofio a sleid a chael pêl-droed a chylch pêl fasged
- Llenwi tyllau'r cwningod, mainc ffrindiau newydd, parc, mwy o ffyntiau dŵr yn y neuadd, mwy o anifeiliaid anwes
- Buarth gwell.

## Gwneud yr ysgol yn fwy gydag estyniad

- Prif ystafell, ystafell nofio, ystafell iPad, ystafell ganu, ystafell cyfrifiadur, ystafell gelf, ystafell addysg grefyddol, ystafell gerdd, ystafell ddarllen ac ystafell frecwast
- Mwy o le.
- Pwll nofio a chodwr a dosbarth celf
- Dosbarth mwy, ystafell gelf, buarth mwy, pwll nofio
- Ystafell celf, ystafell wisgo i fechgyn a genethod, campfa, ystafell ysgrifennu, ystafell grefft, dosbarthiadau mwy, ystafell cymhelliant, llyfrgell fwy ac ystafell nofio
- Pwll nofio, buarth mwy, ystafell addysg gorfforol, ystafell grefft
- Mwy o ddosbarthiadau,
- Ystafell addysg gorfforol
- Buarth mwy i chwarae pêl-droed ac ystafell fawr i bawb chwarae amser aur
- Ar gyfer amser aur, ble byddwn yn dod â theganau. Ystafell newid, ystafell cyfrifiaduron.
- Rhywle i fynd pan ydym yn drist. Pwll ar gyfer gwersi nofio. Ystafell cyfrifiaduron, ystafell amser aur. Gwell set awyr agored, llai o stepiau, ystafelloedd ymolchi gwell, man pêl foli
- Dosbarthiadau mwy, pwll nofio, ystafell gelf, campfa, ystafell màths, troli ffrwythau mwy
- Ystafell gerdd gyda thoiledau glân
- I'n llechwedd glaswelltog gael mwy o ddefnydd

## Atgyweirio a gwelliannau

- A gawn ni lifft ac adeilad mwy?
- Dosbarth mwy
- Cael drysau ar gyfer ein dosbarthiadau
- Drysau at y dosbarthiadau
- Ramp a grisiau
- Dodrefn newydd, gwell llwyfan a llwyfan mwy a neuadd addysg gorfforol
- Cyfrifiaduron, mwy o iPads, ystafelloedd newid
- Lifft i bobl anabl a phobl gyda niwed
- Lifft, ystafell gelf, loceri
- Ffwnten dŵr, buarth mwy, byrddau dosbarth mwy, staff mwy, mwy o anifeiliaid anwes
- iPad newydd, bws ysgol, ystafell tynnu llun, buarth mwy, ystafell gyfarfod, neuadd fwy, dosbarthiadau newydd, ystafell athrawon gwell, maes parcio gwell

## Maes parcio a chludiant

- Rwy'n meddwl y dylai fod yna faes parcio, arhosfa bws a llwybr beic bychan
- Maes parcio
- Rwy'n meddwl bod arnom angen maes parcio ar gyfer ein rhieni ac athrawon
- Man disgyn a chodi ar y maes parcio
- bws ysgol

## Cyffredinol

- Gwisg ysgol newydd
- Diwrnod dod â'ch anifail anwes i'r ysgol
- Mwy o anifeiliaid anwes, mwy o le yn y dosbarth, coginio, siswrn, mwy o gadeiriau mawr
- Pwll nofio
- Loceri, campfa, pwll nofio, parc dŵr, offer y tu allan, peiriant gwerthu, mwy o ffyntiau dŵr, gliniaduron, arch, ystafelloedd newid, ystafelloedd cysgu, ystafell athrawon fwy, llyfrgell fwy, sganwyr
- Rwy'n credu y dylem dacluso'r dosbarthiadau
- Pwll nofio a chodwr a dosbarth celf
- Ystafell o anifeiliaid i chwarae gyda hwy yn ystod amser aur ac anifeiliaid go iawn a cheffyl i'w farchogaeth y tu allan
- Codwr, llai o maths, mwy o ddosbarthiadau celf
- Gadael i blant fynd adref i gael cinio, gwersi nofio, dau ddiwrnod o ysgol yn unig
- Un bwrdd mawr a bwrdd pinc. Y buarth i fod yn fawr a'r ysgol i fod yn fawr a champfa. Rhifydd camau a chadeiriau mawr.
- Buarth antur, ystafell gitâr, ffwnten siocled ymhob dosbarth a dosbarth dawns
- Pwll nofio i ddysgu sut i nofio, desgiau, twb poeth, ystafell tylino, siocled poeth yn lle dŵr, llyfrgell fwy, ystafell barddoniaeth
- Ffwnten siocled, twb poeth a phwll nofio, ystafell gerdd, campfa, buarth antur, siop fferins, sleid, ystafell gelf a dim gwaith
- Llong morladron, go cart, ystafelloedd newid, ystafell bwrdd aur, ystafell byrbryd, bws ysgol, byrbryd bychan wrth fynd, ystafell clwb brecwast
- Siop ger llaw i brynu ffrwythau, parc ger llaw, a maes parcio

Diolch i bawb a gymerodd ran ac am ychwanegu i'r broses.

